# PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 30 Gorffennaf, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton a M.J. Hooper

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2024/25 CYFRAN 1 (CAC) -

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y ceisiadau am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys; Eglwys St. Canna, Llangan; a Chlwb Tenis Creigiau, i'w cymeradwyo.

(2) Cymeradwyo’r cais am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Gymdeithas Gyfeillgar i Ferched, yn amodol ar gael rhagor o wybodaeth gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â chynaliadwyedd y prosiect, a bod hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol i cymeradwyo’r cais gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

(2) Dyfarnu cyllid y cais ar ôl darparu gwybodaeth foddhaol yn gyntaf i ddangos cynaliadwyedd y prosiect, a chymeradwyaeth y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd.